

Cynllun Datblygu Trosglwyddo
2026-27



Ysgolion cynradd sydd yn
ymrwymo i'r Blaenoriaethau

Blaenoriaeth 1	Datblygu dealltwriaeth gysyniadol a hyder dysgwyr mewn gwaith rhif.	Carwe, Gwynfryn, Ponthenri Llannon
Blaenoriaeth 2	Cryfhau rhuglder a dealltwriaeth disgyblion o ddarllen er mwyn:- a) Grymuso eu medrau sylfaenol b) Datblygu eu huwch-fedrau darllen	Carwe, Gwynfryn, Ponthenri Llannon
Blaenoriaeth 3	Datblygu ymhellach gwydnwch ac ymrwymiad dysgwyr er mwyn sicrhau llwyddiant academiaidd a datblygiad personol. Meithrin y rhinweddau hyn i helpu disgyblion i ymateb yn adeiladol i rwystrau, cynnal cymhelliant a datblygu i ddod yn ddysgwyr annibynnol.	Llannon
Blaenoriaeth 4	Cryfhau ymdeimlad disgyblion o Gymreictod a pherthyn wrth drosglwyddo o'r ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd, gan ddarparu profiadau cyfoethog sy'n dathlu iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru	Carwe, Gwynfryn, Ponthenri

Blaenoriaeth 1: Datblygu dealltwriaeth gysyniadol a hyder dysgwyr mewn gwaith rhif.			Meini Prawf Llwyddiant yn seiliedig ar safonau neu ansawdd: • Llawer o athrawon yn defnyddio tasgau angor yn aml ac yn effeithiol. • Mwy o gysondeb pedagogaidd yn bodoli ar draws y clwstwr gan gynnwys defnydd llwyddiannus o dasgau angor • Cwestiynu effeithiol gan lawer o athrawon. • Llawer o athrawon yn hyderus wrth ddefnyddio tasgau angor ac wrth arwain trafodaeth strwythuredig yn effeithiol • Gwytnwch a hyder rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella. • Rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu dewis adnoddau priodol yn annibynnol yn llwyddiannus ar gyfer datrys problemau. • Mae dysgwyr yn datblygu mwy o strategaethau ymdopi gan gynnwys cefnogi ei gilydd.			
Atebolrwydd mewnol: EB, ArT, SD, Penaethiaid Ysgolion Cynradd y Clwstwr, staff addysgu cynradd a uwchradd						
Tystiolaeth: Arsylwadau gwersi, Llyfrau disgyblion, canlyniadau profion, llais y dysgwr, dogfennau hunanwerthuso						
Camau Gweithredu		Gan bwy?	Monitro gan/cerrig milltir i werthuso cynnydd	Gwerthusiad diwedd cyfnod	Anghenion Datblygiad Proffesiynol	Ffynhonnell Gyllid a Chost
1	Gwella hyder athrawon yn y defnydd o dasgau angor. Bydd angen: • Paratoi banc o dasgau angor sy'n gysylltiedig â rhif. • Sefydlu consensws ar flociau adeiladu pob cysyniad mathemategol (rhif).	Holl athrawon sydd yn rhan o'r cynllun 'parod am lwyddiant' ac athrawon eraill o fewn	EB / Glenda Thomas (Parod am Lwyddiant) Diwrnod 5 y cynllun - 14/09/26	Mawrth 2027	Darparu dysgu proffesiynol fel bod yr holl staff priodol yn defnyddio tasgau angor.	Grant i'r clwstwr ar gyfer dyddiadau cydweithio cynradd - uwchradd (diwrnod 5, 6a, 6b,7 a nodir)

	Paratoi awgrymiadau cwestiynau / cychwynwyr brawddegau i athrawon eu defnyddio yn ystod trafodaethau strwythuredig.	ysgolion unigol sydd yn gyfrifol am addysgu rhifedd	Diwrnod 6a - ½ diwrnod diwedd Tachwedd Diwrnod 6b - ½ diwrnod diwedd Chwefror Diwrnod 7 - 08/03/27		Ysgolion unigol i ryddhau athrawon i gydweithio o fewn yr ysgol i ddatblygu tasgau angor o ansawdd uchel.	Cost cyflenwi posibl wrthi ysgolion ryddhau athro/awes i weithio ar ddatblygu tasgau angor ar gyfer yr ysgol.
2.	Gwella gwydnwch a hyder plant wrth ddatrys problemau geiriol (rhif), trwy: - Sefydlu diwylliant o 'rydym yn cytuno i wrando, ond nid oes rhaid i ni gytuno.' - Annog defnydd o ddull concrit, darluniadol a haniaethol. - Rhoi amser i ddysgwyr archwilio ac ymgorffori strategaethau. - Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr weithio mewn grwpiau gallu cymysg. - Annog a dathlu parodrwydd dysgwyr i 'roi cynnig arni' ac i ddatrys problemau mewn mwy nag un ffordd.	Holl athrawon sydd yn rhan o'r cynllun 'parod am lwyddiant ac athrawon eraill o fewn ysgolion unigol sydd yn gyfrifol am addysgu rhifedd	EB / Glenda Thomas (Parod am Lwyddiant) Diwrnod 5 y cynllun - 14/09/26 Diwrnod 6a - ½ diwrnod diwedd Tachwedd Diwrnod 6b - ½ diwrnod diwedd Chwefror Diwrnod 7 - 08/03/27	Mawrth 2027	Cyfarfodydd adran / athrawon i rannu arfer ar draws yr ysgol. Neiltuo amser HMS i ysgolion cynradd rannu arfer a datblygu a sefydlu'r egwyddorion yn effeithiol ar draws yr ystod oedran.	
3.	Gwella dealltwriaeth plant o gysyniadau a gweithrediadau rhif, trwy:	Holl athrawon sydd yn rhan o'r cynllun	EB / Glenda Thomas (Parod am Lwyddiant)	Mawrth 2027	Cyfarfodydd adran / athrawon i rannu arfer ar draws yr ysgol.	Grant i'r clwstwr ar gyfer dyddiadau cydweithio cynradd -

	- Adnabod gwahanol gysyniadau o fewn gwaith rhif a dangos sut maen nhw'n cysylltu. - Gwerth Lle - Pedair gweithrediad + - x ÷ - Ffracsiynau - Degolion - Canrannau - Nodi'n glir y 'blociau adeiladu' ar gyfer pob cysyniad – beth sydd angen i blant ei ddeall? - Sicrhau disgwyliadau uchel i bob dysgwr gyflawni potensial.	'parod am lwyddiant ac athrawon eraill o fewn ysgolion unigol sydd yn gyfrifol am addysgu rhifedd	Diwrnod 5 y cynllun - 14/09/26 Diwrnod 6a - ½ diwrnod diwedd Tachwedd Diwrnod 6b - ½ diwrnod diwedd Chwefror Diwrnod 7 - 08/03/27		Neiltuo amser HMS i ysgolion cynradd rannu arfer a datblygu a sefydlu'r egwyddorion yn effeithiol ar draws yr ystod oedran.	uwchradd (diwrnod 5, 6a, 6b,7 a nodir) Cost cyflenwi posibl wrthi ysgolion ryddhau athro/awes i weithio ar ddatblygu tasgau angor ar gyfer yr ysgol.
4.	Monitro cynnydd dysgwyr a gwerthuso effaith y cynllun yn codi safonau rhif y disgyblion trwy: - Gynnal holiaduron cyn ac ar ôl i fesur hyder athrawon. - Ddadansoddi canlyniadau asesiadau personol i nodi camsyniadau sy'n gyffredin ar draws y clwstwr ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod treialu (Medi a Chwefror)	Holl athrawon sydd yn rhan o'r cynllun 'parod am lwyddiant ac athrawon eraill o fewn ysgolion unigol sydd yn gyfrifol am addysgu rhifedd	Dechrau Medi 2026 i gael y gwaelodlin ar gyfer yr ymchwil weithredol. Athrawon / cydlynwyr yn eu hysgolion unigol. Diwedd y cyfnod - Chwefror 2027 i fesur cynnydd.	Mawrth 2027		Cost /amser i recordio disgyblion wrth eu gwaith a chasglu a choladu tystiolaeth ar gyfer adroddiad terfynol yr ymchwil.

	• Greu holiadur ffurflen google i fesur gwytnwch a hyder dysgwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod treialu (Medi a Chwefror) • Gasglu data ansoddol i fesur cynnydd e.e. trawsgrifiadau o drafodaethau dysgwyr yn ystod tasgau angor ac enghreifftiau o'u lluniadu a'u cynrychioliadau.					
Cynnydd Hanner blwyddyn (Ionawr 2027):						

Blaenoriaeth 2: Cryfhau rhuglder a dealltwriaeth disgyblion o ddarllen er mwyn:-

- c) Grymuso eu medrau sylfaenol
- d) Datblygu eu huwch-fedrau darllen

Meini Prawf Llwyddiant yn seiliedig ar safonau neu ansawdd:

- Sicrhau bod cysondeb yn y dulliau o ddatblygu rhuglder a dealltwriaeth darllen ar draws y clwstwr, a bod pob disgybl yn deall y strategaethau sydd eu hangen i wneud cynnydd yn eu darllen.
- Sicrhau bod bron pob un o'r athrawon yn adnabod cryfderau ac anghenion darllen disgyblion yn gywir ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu.
- Sicrhau bod bron pob un o'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu rhuglder a dealltwriaeth uwch drwy ystod eang o destunau, gan ymestyn gallu disgyblion i ddehongli, gwneud casgliadau a gwerthuso.
- Sicrhau bod bron pob un o'r athrawon yn darparu adborth penodol ac effeithiol sy'n galluogi disgyblion i fireinio eu strategaethau darllen a datblygu eu medrau darllen yn annibynnol.
- Sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i adborth ac yn cymhwyso strategaethau darllen yn fwyfwy annibynnol wrth ymgysylltu ag ystod eang o destunau ar draws y cwricwlwm..

Atebolrwydd mewnol: Sian Rowe, Sian Jones, ArT, SD, Penaethiaid Ysgolion Cynradd y Clwstwr, staff addysgu cynradd a uwchradd

Tystiolaeth: Llyfrau'r disgyblion, canlyniadau profion

Camau Gweithredu		Gan bwy?	Monitro gan/cerrig milltir i werthuso cynnydd	Gwerthusia d diwedd cyfnod	Anghenion Datblygiad Proffesiynol	Ffynhonnell Gyllid a Chost
1.	Cydlynnydd Llythrennedd i barhau i ddatblygu'r berthynas gyda ysgolion cynradd y clwstwr er	Sian Jones Sian Rowe	Cyfarfodydd Clwstwr 13eg Hydref 2026	Haf 27	-	Cost cyflenwi 3 X £75

	mwyn rhannu arfer trwy sicrhau gyfarfodydd cyson ar galendr ysgolion y clwstwr	Athrawon cynradd	19eg Ionawr 2027 20fed Ebrill 2027			
2	Cyflwyniad rhithiol o'r strategaeth Darllen Doeth (darllen corawl) i holl ysgolion y clwstwr er mwyn: - Gosod y weledigaeth - Cyflwyno'r strategaeth - Nodi enghreifftiau - Gosod darn darllen ar gyfer Pontio 19/20 Hydref	BD / Athrawon cynradd	Cyfarfodydd Clwstwr	Medi 2026	-	Cost cyflenwi 3 X £75
3.	Datblygu ymhellach dulliau gweithio cytun i sicrhau cysondeb yn y strategaethau er mwyn datblygu darllen corawl ac uwch fedrau darllen.		Cyfarfodydd Clwstwr 13eg Hydref 2026 19eg Ionawr 2027 20fed Ebrill 2027	Haf 2027		Cost cyflenwi 3 X £75
4.	Cynllunio bod Lowri Davies(Partneriaeth) yn cyflwyno'r cyflwyniad Uwch Fedrau Darllen i ysgolion y clwstwr	LD / SJ / Athrawon y Clwstwr			Lowri Davies o Bartneriaeth i gydweithio gyda'r gweithgor	Cost cyflenwi
5.	Cynllunio cyfleoedd i athrawon y clwstwr asesu darnau o waith ac adnabod camau gweithredu wrth fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.	Sian Jones Sian Rowe Athrawon y clwstwr	Mawrth 26 Mehefin 26			
Cynnydd Hanner blwyddyn (Ionawr 2027):						

Blaenoriaeth 3:

Datblygu ymhellach gwydnwch ac ymrwymiad dysgwyr er mwyn sicrhau llwyddiant academiaidd a datblygiad personol. Meithrin y rhinweddau hyn i helpu disgyblion i ymateb yn adeiladol i rwystrau, cynnal cymhelliant a datblygu i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Meini Prawf Llwyddiant yn seiliedig ar safonau neu ansawdd:

- Trwy weithgareddau hunanwerthuso ar draws y clwstwr, sicrhau fod athrawon yn defnyddio ystod helaeth o ddulliau sy'n cynorthwyo disgyblion i ddod yn ddysgwyr gwydn, annibynnol, ac eu bod yn modelu prosesau a meddwl yn fedrus ac yn mynnu ymatebion o ansawdd uchel gan eu disgyblion.
- Dangosyddion SHRN yn dangos gwelliant mewn meysydd targedir yn erbyn y cylch nesaf o gasglu data (Uwchradd Ebrill 2026/Cynradd Ebrill 2027)
- Sicrhau diwylliant anogol a chefnogol sy'n hybu perthnasoedd cadarnhaol
- Parchu ac ymateb i lais y dysgwr er mwyn gofalu am lesiant pawb
- Sicrhau bod elfen o feddylfryd twf, rheoli emosiynau a datrys problemau yn weladwy mewn cynlluniau gwersi a chyfranogiad disgyblion ar draws y clwstwr.

Atebolrwydd mewnol: ArT, SD, Penaethiaid Ysgolion Cynradd y Clwstwr, staff addysgu cynradd a uwchradd

Tystiolaeth: Arsylwadau gwersi, Llyfrau disgyblion, canlyniadau profion, llais y dysgwr, dogfennau hunanwerthuso

Camau Gweithredu		Gan bwy?	Monitro gan/cerrig milltir i werthuso cynnydd	Gwerthusia d diwedd cyfnod	Anghenion Datblygiad Proffesiynol	Ffynhonnell Gyllid a Chost
1.	Cydlynwyr MDaPh lechyd a Lles cynradd ac uwchradd i gryfhau'r berthynas o fewn y clwstwr wrth sefydlu gweithgor penodol i	SD / Arweinwyr	Cyfarfodydd Clwstwr Hydref 2026 Ionawr 2027	Haf 27	Aelodau'r gwiethgor i rannu arfer o fewn yr ysgolion cynradd	Cost cyflenwi 1 X £75

	adnabod meysydd i'w datblygu ac i rannu arfer er mwyn ymateb yn llwyddiannus i ofynion disgyblion.	MDaPh lechyd a Lles	Mehefin 2027		unigol o fewn cyfarfodydd staff-	
2	Datblygu ymhellach elfennau o feddylfryd twf, rheoli emosiynau a datrys problemau ar y cyd rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd gan ddefnyddio strategaethau a dulliau cytun er mwyn sicrhau cysondeb a dilyniant llyfn i'r disgyblion.	SD / Arweinwyr MDaPh lechyd a Lles	Cyfarfodydd Clwstwr Hydref 2027 Ionawr 2027 Mehefin 2027	Haf 27		Cost cyflenwi 1 X £75
3.	Rhannu ac ymateb i ddata SHRN er mwyn adnabod meysydd i'w datblygu a chynllunio ar y cyd gyda'r ysgol uwchradd.	SD / Arweinwyr MDaPh lechyd a Lles	Hydref 2026	Haf 27		
4.	Hyrwyddo ac annog llais y dysgwyr trwy Cyngorau Ysgol. Cynnwys aelodau o fforymau cynradd yn gyfarfodydd 'Llais Maes' yr ysgol Uwchradd tymor yr Haf.	SD / Arweinwyr Cyngor ysgol	Haf 2027	Haf 27		
Cynnydd Hanner blwyddyn (Ionawr 2027):						
-						

Blaenoriaeth 4:

Cryfhau ymdeimlad disgyblion o Gymreictod a pherthyn wrth drosglwyddo o'r ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd, gan ddarparu profiadau cyfoethog sy'n dathlu iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru.

Meini Prawf Llwyddiant yn seiliedig ar safonau neu ansawdd:

- Polisi Cymreictod Clwstwr wedi'i ddatblygu, ei gytuno a'i weithredu ym mhob ysgol o fewn y clwstwr.
- Staff yn defnyddio brawddegau pendodol cytûn yn gyson i annog disgyblion i gyfathrebu yn Gymraeg, a gwelir tystiolaeth o hyn mewn teithiau dysgu ac arsylwadau anffurfiol.
- Cynnydd mesuradwy yn nifer y disgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac anffurfiol.
- Disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ac yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio yn yr ysgol a thu hwnt.
- Llais y disgybl yn dangos bod y gweithgareddau pontio wedi cyfrannu at ddatblygu eu hymdeimlad o berthyn i'r ysgol a'u balchder yn eu Gymreictod.
- Cydweithio effeithiol rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd yn sicrhau neges gyson am bwysigrwydd y Gymraeg a Chymreictod.
- Canran uwch o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn trosglwyddo i Flwyddyn 7 gan ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn ystod eang o gyd-destunau.

Atebolrwydd mewnol: ArT, SD, STh, Penaethiaid Ysgolion Cynradd y Clwstwr, staff addysgu cynradd a uwchradd, Canolfan Gwen

Tystiolaeth: Arsylwadau gwersi, Llyfrau disgyblion, canlyniadau profion, llais y dysgwr, dogfennau hunanwerthuso

Camau Gweithredu	Gan bwy?	Monitro gan/cerrig milltir i werthuso cynnydd	Gwerthusia d diwedd cyfnod		Ffynhonnell Gyllid a Chost
------------------	----------	---	----------------------------	--	----------------------------

1	Datblygu Polisi Cymreictod Clwstwr cytûn sy'n amlinellu disgwyliadau a dulliau cyson o hyrwyddo'r Gymraeg ar draws pob ysgol.	ArT/ST/SD Athrawon y clwstwr				
2	Cytuno ar a gweithredu brawddegau pendodol i'w defnyddio gan staff wrth ymateb i ddisgyblion sy'n cyfathrebu yn Saesneg, gan annog defnydd naturiol o'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol.	ArT/ST/SD Athrawon y clwstwr				
3	Cynnal gweithgareddau pontio sy'n dathlu diwylliant, hanes a threftadaeth leol Sir Gâr a Chymru.	ArT/ST/SD Athrawon y clwstwr				
4	Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 gydweithio ar brosiectau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod.	ArT/ST/SD Athrawon y clwstwr				
5	Casglu barn disgyblion am eu hymdeimlad o berthyn a'u defnydd o'r Gymraeg cyn ac ar ôl y cyfnod pontio.	ArT/ST/SD Athrawon y clwstwr			-	
6	Manteisio ar arbenigedd a darpariaeth Canolfan Gwen i gefnogi gweithredu'r Polisi Cymreictod ac i gynyddu'r defnydd naturiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion ar draws y clwstwr.	RhOT/ SiD/ ArT/ST/SD Athrawon y clwstwr				
Cynnydd Hanner blwyddyn (Ionawr 2027):						

